

Polisi a Gweithdrefn Ymchwil Sensitif

Fersiwn: Version:	Dyddiad: Date:	Cymeradwywyd gan: Approved by:	Dyddiad adolygiad: Review Date
Terfynol	Chwefror 2017	Y Pwyllgor Moeseg Ymchwil Y Weithrediaeth Grŵp Atal	Chwefror 2018

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	2
2. Ymchwil Sensitif.....	2
3. Israddedigion ac Uwchraddedigion a Ddysgir drwy Gwrs.....	3
4. Cymeradwyo a Mynediad.....	3
5. Defnyddio Safleoedd Gwaharddedig	4
6. Storio Deunydd.....	5
7. Trawsyrro Deunydd	5
8. Ymholiadau Mewnol ac Allanol	6
9. Peidio â glynu at y polisi.....	7
10. Adolygu'r Polisi	7

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod rhyddid academiaidd yn allweddol o safbwynt ei gweithgareddau ymchwil. Serch hynny, mae'n ddyletswydd hefyd ar y Brifysgol i sicrhau bod ymchwil, ac yn arbennig ymchwil sensitif ei natur, yn cael ei gynnal mewn modd moesegol a phriodol.

1.2 Wrth gwrs, mae ymchwil i feysydd sensitif yn peri rhywfaint o risg i'r ymchwilydd dan sylw. Drwy gydymffurfio â'r nodyn polisi hwn, bydd modd i'r Brifysgol ddangos i awdurdodau allanol fod deunydd o'r fath yn rhan o waith ymchwil dilys. Er hynny, ni all y Brifysgol warantu y bydd hyn yn amddiffyn rhag ymchwiliadau gan awdurdodau o'r fath, pe bai'r cyfryw sefyllfa'n codi.

1.3 Mae cwmpas y polisi hwn yn berthnasol i bawb, gan gynnwys staff a myfyrwyr, sy'n gwneud gwaith ymchwil i'r Brifysgol ac ar ei rhan.

2. Ymchwil Sensitif

2.1 Mae tri maes ymchwil bras lle byddai'r ymchwil fel arfer yn cael ei ystyried yn 'sensitif':

- i. **Ymchwil i weithgareddau anghyfreithlon;** ond gweler y canllawiau ar wahân ynghylch hyn.
- ii. **Ymchwil lle mae'n rhaid defnyddio gwefannau a fyddai fel arfer yn mynd yn groes i [Reoliadau'r Gwasanaethau Gwybodaeth](#),** gan gynnwys, ymhlith pethau eraill; pornograffi, neu safleoedd [sefydliadau](#) sydd wedi'u gwahardd gan Lywodraeth y DU;
- iii. **Ymchwil i eithafiaeth a radicaleiddio.**

2.2 Mae diffiniad ymchwil sensitif yn cwmpasu amryw helaeth o bynciau ymchwil, ac mae'n rhaid ateb y cwestiynau perthnasol yn y *ffurflen asesiad moeseg ar-lein*, er mwyn pennu a yw'n debygol y bydd y prosiect ymchwil yn cael ei ystyried yn ymchwil sensitif o dan y polisi hwn.

2.3 Cydnabyddir yn ogystal fod pob prosiect ymchwil yn unigryw o ran ei nodau a'i fethodoleg. O'r herwydd, dylai'r ymchwilydd a'r staff goruchwyllo sicrhau eu bod yn ystyried agweddau moesegol y prosiect arfaethedig mewn modd blaengar ac agored, yn unol â nodau'r polisi hwn.

3. Israddedigion ac Uwchraddedigion a Ddysgir drwy Gwrs

3.1 Nid yw'n briodol i israddedigion wneud gwaith ymchwil sensitif, a hynny oherwydd eu diffyg profiad cymharol o waith ymchwil, heblaw bod amgylchiadau arbennig o ran goruchwyllo a chloriannu ar waith. Bydd angen i oruchwylwyr a chydlynwyr modiwlau roi ystyriaeth ofalus i'r posibilid y gallai rhai meysydd ymchwil sensitif beri niwed i iechyd meddwl a lles myfyrwyr.

3.2 Dim ond dan drefniadau goruchwyllo a chloriannu priodol gan y tîm goruchwyllo a Phen-naeth yr Adran y mae'n briodol i uwchraddedigion a ddysgir drwy gwrs ymgymryd ag unrhyw rai o'r gweithgareddau ymchwil a restrir yn 2.1.

4. Cymeradwyo a Mynediad

- 4.1. Mae'r asesiad moeseg ar-lein yn cynnwys atodiad ymchwil sensitif lle ceir cyfres o gwestiynau hidlo. Mae'r rhain yn pennu a ddylid ystyried prosiect ymchwil yn un sensitif, ac a ddylid felly roi ystyriaeth arbennig iddo cyn y gellir rhoi cymeradwyaeth foesegol.
- 4.2. Bydd yr adolygydd adrannol neu athrofaol priodol, ynghyd â'r Uned Moeseg Ymchwil, yn gwneud penderfyniad ar y cyd ynghylch a ddylid rhoi cymeradwyaeth foesegol adrannol i brosiectau ymchwil sensitif. Bydd y Cadeirydd ac o leiaf ddau aelod arall o Banel Moeseg Ymchwil perthnasol y Brifysgol (gan gynnwys aelod annibynnol a chynrychiolydd y myfyrwyr, os mai myfyriwr yw'r ymchwilydd) yn trafod y cais ac yn penderfynu a ddylid caniatáu i'r cynnig aros yn yr adran, neu a ddylid gofyn am newidiadau i gynllun/protocol yr ymchwil drwy gyflwyno cais i'r Panel Moeseg Ymchwil perthnasol.
- 4.3. Gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi cymeradwyaeth foesegol i'r ymgeisydd, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gallai fod angen eu gwneud, gan yr Adran/Athrofa a'r Uned Moeseg Ymchwil ymhen 10 diwrnod o gyflwyno'r asesiad ar-lein. Os bydd gofyn i'r ymchwilydd gyflwyno cais am adolygiad ffurfiol gan y Panel Moeseg Ymchwil, caiff y cais ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Panel.
- 4.4. Bydd gan ymgeiswyr y gwrthodir cymeradwyaeth foesegol iddynt heb gyfle i newid cynllun/protocol yr ymchwil (rhywbeth a ddylai fod yn brin iawn) hawl i gyflwyno apêl ysgrifenedig, gan ddilyn y drefn a amlinellir ar dudalen Moeseg Ymchwil y wefan.
- 4.5. Ni cheir gwyro oddi wrth y dulliau o ran ymchwil sy'n sensitif o safbwynt diogelwch a gafodd gymeradwyaeth foesegol lawn. Os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r ymchwil, megis defnyddio deunyddiau newydd, neu ymchwilio i feysydd newydd, bydd yn rhaid ailgyflwyno cais am gymeradwyaeth foesegol. Bydd y Panel Moeseg Ymchwil yn gwneud pob ymdrech i brosesu'r cais newydd cyn gynted ag y bo modd er mwyn peidio â pheri oedi o ran yr ymchwil.
- 4.6. Ar ôl i brosiect ymchwil a ystyrir yn un sensitif gael cymeradwyaeth foesegol, bydd yr Uned Moeseg Ymchwil yn anfon cadarnhad i'r Gwasanaethau Gwybodaeth ac yn gofyn

iddynt greu storfa ffeiliau ddiogel ar wahân dan gyfrinair at ddefnydd yr ymchwilydd. Rhaid storio unrhyw ddeunydd yr ystyrir ei fod yn sensitif yn y storfa ffeiliau hon yn unig, ac ni ddylid ei hagor cyn i'r ymchwilydd gael caniatâd i ddefnyddio'r storfa ffeiliau.

- 4.7. Pan fydd cymeradwyaeth foesegol wedi'i rhoi, bydd yr Uned Moeseg Ymchwil yn cofnodi manylion y prosiect ar gofrestr. Bydd copi o'r gofrestr ddiweddaraf yn cael ei rhannu â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth, y Cyfarwyddwr Ymchwil, Busnes ac Arloesi a'r Dirprwy Is-Ganghellor, Prif Swyddog Gweithredu os daw unrhyw ymholiadau allanol i law.
- 4.8. Rhaid cyflwyno adroddiad Diwedd Prosiect i'r Panel Moeseg Ymchwil a roddodd y farn foesegol derfynol. Darperir hwn i'r ymchwilydd wedi i gymeradwyaeth gael ei rhoi. Cyfrifoldeb yr ymchwilydd yw sicrhau y caiff ei ddychwelyd ymhen mis i ddyddiad diwedd y prosiect.
- 4.9. Bydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn goruchwyllo gweithrediad y polisi hwn a'r broses gymeradwyo.

5. Defnyddio Safleoedd Gwaharddedig

- 5.1 Rhaid i ymchwilydd y mae eu prosiectau wedi cael cymeradwyaeth foesegol lawn ac y mae angen iddynt ddefnyddio gwefannau a allai fynd yn groes i [Reoliadau Gwasanaethau Gwybodaeth y Brifysgol](#) gysylltu â'r Uned Moeseg Ymchwil i sicrhau y gall y Gwasanaethau Gwybodaeth wneud y newidiadau angenrheidiol o ran caniatâd a chofnodi enw/enwau'r sawl sydd am ddefnyddio'r gwefannau.
- 5.2 Dylai ymchwilydd sy'n defnyddio gwefannau a allai fod yn gysylltiedig â radicaleiddio neu sefydliadau neu grwpiau terfysgol/eithafol fod yn ymwybodol y gall safleoedd o'r fath fod dan oruchwyliaeth yr heddlu, ac y gallai defnyddio'r safleoedd hynny arwain at ymholiadau gan yr heddlu. Wedi i gymeradwyaeth foesegol lawn gael ei rhoi, dylai ymchwilydd ddefnyddio rhwydwaith y Brifysgol i agor safleoedd o'r fath. Bydd hyn yn sicrhau bod cofnod fod y gweithgareddau hyn yn rhan ddilys o'u hymchwil. Er hynny, fel y dywedwyd, ni all y Brifysgol warantu na chynhelir ymchwiliadau gan awdurdodau allanol.
- 5.3 Os bydd unrhyw ansicrwydd, ni ddylai ymchwilydd ddefnyddio gwefannau o'r fath a dylent gysylltu â'r Uned Moeseg Ymchwil i sicrhau eu bod wedi cael y gymeradwyaeth foesegol a'r caniatâd priodol gan y Gwasanaethau Gwybodaeth.

6. Storio Deunydd

- 6.1 Mae ystyriaethau ychwanegol ynghlwm wrth rai mathau o ymchwil sensitif, gan gynnwys:
 - i. Ymchwil i derfysgaeth, eithafiaeth, sefydliadau neu grwpiau terfysgol neu eithafol, ideolegau eithafol, radicaleiddio¹, dadradicaleiddio²;
 - ii. Ymchwil wedi'i gomisiynu gan y lluoedd arfog neu GCHQ;
 - iii. Ymchwil wedi'i gomisiynu o dan alwad diogelwch yr Undeb Ewropeaidd / Unol Daleithiau neu debyg;
 - iv. Ymchwil lle mae angen gwyllo, defnyddio neu drosglwyddo data personol sensitif fel y diffinnir hynny yn Neddf Diogelu Data 1998;

- v. Ymchwil lle mae'n rhaid cael cliriad diogelwch (gan gynnwys y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol).
- 6.2 Rhaid cadw holl ddeunydd yr ymchwil a data unrhyw ymchwil i'r meysydd a restrir yn 2.1 yn ddiogel yn y storfa ffeiliau ar wahân dan gyfrinair a grybwyllwyd uchod. Ni ddylid cadw copïau yn unman arall. Os na threfnwyd darpariaeth eisoes ar gyfer storio'r deunydd yn ddiogel yn rhan o'r prosiect, cyfrifoldeb yr ymchwilydd yw cysylltu â'r Uned Moeseg Ymchwil i ofyn am storfa o'r fath.
- 6.3 Rhaid i ymchwilwyr sicrhau bod y Brifysgol yn abl ac yn alluog i gyflawni unrhyw rwymedigaethau eraill a bennir gan y corff neu'r sefydliad cyllid ymchwil perthnasol.
- 6.4 Rhaid cyfyngu hawl i ddefnyddio'r storfa ffeiliau hon i'r ymchwilydd, ac unrhyw gydymchwilwyr mewnlol sy'n gweithio ar brosiectau ar y cyd. Rhaid i'r trefniadau storio diogel gynnwys pob deunydd sy'n gysylltiedig â'r prosiect ymchwil, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill: deunydd wedi'i lawrlwytho, dogfennau, fideos, delweddau, neu ddata ymchwil. Mae'n bosib y diddymir yr hawl i ddefnyddio'r storfa hon os bydd yr ymchwilydd yn gadael y prosiect, neu os na fydd yn cydymffurfio â'r polisi hwn.
- 6.5 Dylid cynnal ymchwil sensitif ar-lein sydd wedi cael cymeradwyaeth foesebol i'r meysydd a restrir yn 2.1 ar weinyddion y Brifysgol (gweler 5.1).
- 6.6 Dylid sganio dogfennau a data ffisegol a'u llwytho i weinydd dan gyfrinair; lle nad yw hyn yn bosib, dylid cadw dogfennau mewn cwpwrdd ffeilio dan glo, mewn swyddfa un defnyddiwr dan glo ar safle'r Brifysgol.

7. Trawsyrru deunydd

- 7.1 Dylai ymchwilwyr nodi bod y Ddeddf Terfysgaeth (2006) a'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch (2015) yn gwahardd lledaenu cyhoeddiadau terfysgol os yw'n fwriad gan yr unigolyn dan sylw i annog neu gymell eraill. Rhaid i ymchwilwyr nodi y gall '*ymddygiad di-hid*' gyfrif fel trosedd o dan y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch. Ni ddylai cyhoeddiadau a ledaenir at ddibenion prosiect ymchwil sydd wedi'i ddiffinio'n glir gyfrif fel trosedd, oherwydd bod y bwriad angenrheidiol yn annhebygol o fod yn bresennol. Er hynny, cynghorir ymchwilwyr i arfer pwyll a dylid osgoi lledaenu deunyddiau ymchwil crai lle bo hynny'n bosib.

¹ Mae radicaleiddio'n cyfeirio at y broses sy'n peri i unigolyn gefnogi terfysgaeth a mathau o eithafiaeth sy'n arwain at derfysgaeth.

² Mae dadradicaleiddio fel arfer yn cyfeirio at weithgarwch sydd wedi'i anelu at unigolyn sy'n cefnogi terfysgaeth ac sydd mewn rhai achosion wedi ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, y bwriedir iddo achosi newid gwybyddol a/neu ymddygiadol sy'n arwain at newid agwedd tuag at derfysgaeth a/neu ymddieithrio oddi wrthi.

- 7.2 Yn achos prosiectau ymchwil ar y cyd ag ymchwilwyr mewn sefydliadau eraill yn y DU neu dramor, mae'n bosib y bydd angen i ddogfennau gael eu hanfon o bryd i'w gilydd. Dylid gosod cyfrinair ar bob dogfen yn unigol lle bo hynny'n bosib, ac yna'i hanfon drwy ddull diogel sy'n amgryptio'r ffeil wrth ei thrawsyrro. Bydd cyd-ymchwilwyr o'r tu allan i'r Brifysgol hefyd yn anfon ffeiliau at ymchwilwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth o bryd i'w gilydd, a rhaid storio'r ffeiliau hyn ar unwaith yn y storfa ffeiliau ddiogel. Gall y Gwasanaethau Gwybodaeth roi cyngor ynghylch trawsyrro'n ddiogel.
- 7.3 Cynghorir ymchwilwyr yn gryf i osgoi cludo deunyddiau ymchwil crai sy'n gysylltiedig â phrosiectau ymchwil sensitif. Fodd bynnag, os nad oes modd osgoi hynny rhaid i ymchwilwyr ddefnyddio cof bach wedi'i amgryptio.
- 7.4 Dylai ymchwilwyr arfer pwyll wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol personol i ledaenu dadleuon beirniadol neu gynnyrch neu ganlyniadau prosiectau ymchwil sensitif am y rhesymau a nodir yn 7.1. Yn benodol, cynghorir yn gryf na ddylai ymchwilwyr greu hyperddolenni i safleoedd a ddefnyddiwyd, gyda chymeradwyaeth foesegol, fel 'deunyddiau ymchwil crai' (e.e. safleoedd unrhyw [sefydliadau gwaharddedig](#)). Yn ogystal, dylai ymchwilwyr lynu at y polisïau [Cydymffurfiaeth Gwybodaeth](#) perthnasol.

8. Gwaredu Deunydd a Data

- 8.1 Dylai deunydd ymchwil (copïau caled) gael ei waredu gan yr ymchwilydd, gan sicrhau bod y deunydd yn cael ei waredu mewn modd priodol sy'n sicrhau nad oes modd i eraill gael gafael arno. Dylid osgoi cludo deunydd yn bell.
- 8.2 Bydd deunydd sy'n cael ei storio'n electronig, ar weinydd dan gyfrinair, yn cael ei ddileu'n ddiogel pan fydd hawl i ddefnyddio'r gyriant diogel wedi dod i ben neu pan nad oes angen hawl i'w ddefnyddio mwyach.
- 8.3 Lle bo gofynion rheoli data ymchwil ar waith, dylai ymchwilwyr sicrhau bod unrhyw ddata, boed yn ddigidol neu'n ffisegol, yn cael ei glustnodi i'w waredu ar ôl y broses goladu ar ddiwedd y prosiect fel y nodir yn 8.1 ac 8.2.
- 8.4 Cyfrifoldeb yr ymchwilydd yw sicrhau y glynwyd at yr holl ganllawiau moesegol, cyfreithiol a gweithdrefnol eraill wrth waredu unrhyw ddata o'r fath gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, polisïau a gweithdrefnau Prifysgol Aberystwyth a chanllawiau cyrff cyllido.

9. Ymholiadau Mewnol ac Allanol

- 9.1 Os bydd pryderon gwirioneddol yn codi ynghylch defnyddio neu gamddefnyddio deunyddiau ymchwil sensitif gan unrhyw aelod(au) o'r staff neu fyfyrwr, dylid cysylltu â'r Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn rhai brys. Os yw'r pryderon yn ymwneud â chynnwys unrhyw ddeunyddiau copi caled (e.e. llyfrau neu bapurau wedi'u hargraffu) dylid gadael y deunyddiau heb eu cyffwrdd, ond dylai'r sawl sy'n dod o hyd iddynt aros gyda hwy tra bo aelod uwch o'r staff yn gwirio a yw'r deunyddiau hyn yn gysylltiedig â phrosiect ymchwil dilys. Yn yr un modd, ni ddylid edrych ar ddeunydd electronig hyd nes y bydd y cynnwys wedi'i wirio gan yr awdurdodau priodol.

10. Peidio â glynu at y polisi

- 10.1 Bydd mynd yn groes i'r polisi hwn drwy fethu â chael cymeradwyaeth foesegol i ymchwil sensitif, gwyro oddi wrth gynllun gwreiddiol yr ymchwil a gyflwynwyd ar gyfer cymeradwyaeth foesegol, neu beidio â storio deunyddiau ymchwil ar gyfer ymchwil i'r meysydd a restrir yn 2.1 yn ddiogel, yn fforffedu unrhyw amddiffyniad y gallai'r Brifysgol ei gynnig pe bai awdurdodau allanol yn cychwyn ymchwiliad. Fel arfer, ymchwilir i achosion o fynd yn groes i'r polisi hwn gan staff a myfyrwyr fel ei gilydd drwy'r [polisi Camymddwyn wrth wneud Ymchwil](#)

11. Adolygu'r polisi

- 11.1 Adolygir y polisi hwn yn flynyddol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol.